Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-06-1478 - Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o waith Cyfoeth Naturiol Cymru a methiannau'r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol i ddiogelu Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 18 Tachwedd 2024
Petitions Committee | 18 November 2024

**Cyfeirnod:** SR24/9803-1

**Rhif y Ddeiseb**: P-06-1478

**Teitl y ddeiseb**: Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o waith Cyfoeth Naturiol Cymru a methiannau'r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol i ddiogelu Cymru

**Geiriad y ddeiseb**: Am fwy na degawd, mae'r asiantaeth sydd â mandad i ddiogelu amgylchedd Cymru wedi gweld dirywiad yn ei gallu i ymgymryd â'i diben statudol, yn fy marn i.

Dylid achub afonydd llygredig Cymru (sef rhydwelïau ein byd natur) a rhoi bywyd newydd iddynt.

Mae angen cynnal adolygiad cynhwysfawr o erlyniadau diffygiol y corff, ynghyd â'i ddiffyg gweithredu, a hynny er mwyn amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

Mae mwyafrif helaeth y staff sy'n gweithio yn y sefydliad yn gwneud hynny'n ddiwyd, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ganddynt, er mwyn diogelu amgylchedd Cymru.

Mae gor-gymhlethu materion ac ymgymryd â phrosiectau diangen yn arwain at ostyngiad mewn adnoddau ariannol a diffyg gweithredu mewn meysydd blaenoriaeth.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r modd y caiff prosiectau eu hariannu, gyda'r nod o ddileu gwariant gwastraffus a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran y materion sylfaenol y mae amgylchedd Cymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, diogelu ac adfer systemau afonydd Cymru er budd y byd naturiol a'r bobl sy'n eu mwynhau.

# 1. Cefndir

Sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn 2013 drwy uno Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Mae ganddo ystod eang o gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol, a dyma yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ynghylch materion adnoddau naturiol. Fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n atebol i Weinidogion Cymru drwy'r Gweinidog Nawdd – ar hyn o bryd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS.

## 1.1. Beirniadaeth o CNC

Mae CNC wedi wynebu beirniadaeth gyhoeddus yn ddiweddar ynghylch nifer o agweddau ar ei waith.

Mae hyn yn cynnwys ei ymateb i faterion ar safle tirlenwi Withyhedge, lle mae allyriadau nwy wedi effeithio ar gymunedau sy'n byw o amgylch y safle. Beirniadwyd CNC am ei ddull gorfodi, gan gynnwys ar raglen Dispatches ar

Channel 4 ym mis Mehefin. Mae CNC wedi cyhoeddi gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd am ei ymchwiliad i faterion ar y safle

Yn yr un modd, siaradodd dau o gyn-weithwyr CNC yn siarad â rhaglen S4C Y Byd ar Bedwar (a ddarlledwyd ym mis Gorffennaf 2024) am eu profiadau o weithio i'r rheoleiddiwr a phryderon ynghylch monitro a gorfodi digwyddiadau llygredd afonydd. Gwnaeth y cyn-weithwyr honiadau am fethiannau lluosog gan y rheoleiddiwr.

Mae CNC wedi wynebu beirniadaeth o sut mae'n ymateb i ddigwyddiadau llygredd dŵr ac yn ymchwilio iddynt. Mewn ymateb, mae wedi cyhoeddi gwybodaeth am ei ddull gweithredu o ran rheoli ansawdd dŵr.

Ym mis Gorffennaf, dywedodd CNC ei fod yn "cynnal nifer o ymchwiliadau ffurfiol, gan gynnwys erlyniadau posibl mewn perthynas ag achosion a phroblemau sy'n ymwneud â chydymffurfio â thrwyddedau [y diwydiant dŵr]". Rhoddodd dystiolaeth i Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ym mis Hydref.

## 1.2. Adolygiadau o CNC a'i weithgareddau

Mae CNC wedi cynnal nifer o adolygiadau o'i weithgareddau, neu wedi bod yn destun i adolygiadau o'r fath, ers ei sefydlu.

Yn 2015, comisiynodd Llywodraeth Cymru y Swyddfa Rheoliadau Gwell ar y pryd i gynnal adolygiad o CNC yn unol â'r 'egwyddor rheoleiddio da',

Cynhaliodd y sefydliad hefyd adolygiad o'i ymateb i stormydd Ciara a Dennis a darodd Gymru ym mis Chwefror 2020, gan achosi llifogydd eang. Cafodd canlyniad yr adolygiad ei gyhoeddi ym mis Hydref 2020.

Yn 2022, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ei bod wedi gofyn i CNC gynnal adolygiad sylfaenol o'i adnoddau yn erbyn ei swyddogaethau statudol ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Yn dilyn hynny, ym mis Ionawr 2023, cydnabu Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, fod hyn wedi canfod bwlch yng nghyllid CNC. Roedd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CNC ar gyfer 2022-23 yn nodi sut y defnyddiwyd yr adolygiad sylfaenol i ddatblygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) mewn deg maes allweddol, gan nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer darparu gwasanaethau. Dywedodd CNC wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr

Amgylchedd a Seilwaith yn ddiweddar na fydd CLG yn cael eu datblygu mwyach, a'i fod bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu 'cynlluniau aml-flwydd' yn lle hynny.

Yn fwyaf diweddar, ym mis Gorffennaf eleni, lansiodd CNC ymgynghoriad gyda'i undebau llafur ar gynigion ar gyfer newidiadau i'w strwythur staffio. Cyfeiriwyd at hyn fel yr 'achos dros newid'.

Cyfarfu bwrdd CNC ar 5 Tachwedd i wneud y penderfyniad terfynol ar y canlyniad, a hysbyswyd y staff am hyn ar 6 Tachwedd. Hefyd, fe wnaeth CNC gyhoeddi manylion y canlyniad. Mae hyn yn cynnwys gwneud arbedion o £12m, cwtogi rhai gwasanaethau megis cau ei lyfrgell, yn ogystal â chaffis a siopau mewn canolfannau ymwelwyr a chael gwared ar 233 o swyddi (113 sy'n wag ar hyn o bryd).

# 2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o gyllid CNC drwy Gymorth Grant a grantiau eraill. Yn 2022/23, daeth 59 y cant o incwm CNC oddi wrth Lywodraeth Cymru, a chodwyd y gweddill drwy daliadau (17 y cant), incwm masnachol/incwm arall (21 y cant), a chyllid Ewropeaidd/allanol (2 y cant). Yn 2022/23, roedd cyfanswm ei wariant, sef £272m, yn fwy na'i incwm, sef £234m, sy'n awgrymu diffyg o £38m.

Fel y nodwyd uchod, canfuwyd bylchau yng nghyllid CNC a gwnaed gwaith i ystyried sut y gellid eu rheoli. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth a gyhoeddwyd gan CNC (ac a dynnwyd wedi hynny yn dilyn y cyhoeddiad ar 6 Tachwedd) yn amcangyfrif bwlch ariannu o £9m yn 2024/25, a fydd yn tyfu "tua £4m yn 2025/26 i £13 miliwn, gyda £4 miliwn arall yn cael ei ychwanegu yn 2026/27. Mae hyn yn golygu y bydd y bwlch yn fwy na £17 miliwn erbyn 2026/27 os na chymerwn gamau."

Ar 21 Hydref, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig yn nodi bod Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon CNC ar gyfer 2023-24 yn cynnwys manylion am ymchwiliadau Cyllid a Thollau EF (CThEF) i gydymffurfiaeth hanesyddol CNC â gofynion gweithio oddi ar y gyflogres Mae'r cyfrifon yn nodi'n glir bod taliad "heb ragfarn" o £19m wedi'i wneud i CThEF mewn perthynas â rhwymedigaethau posibl yn dilyn yr ymchwiliad sy'n mynd rhagddo gan CThEF.

Mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet at y Cadeirydd ynghylch y ddeiseb hon yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd â CNC yn rheolaidd i fonitro a dadansoddi perfformiad.

# 3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Trafodwyd perfformiad CNC yn helaeth yn y Senedd. Yn benodol, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn cynnal gwaith craffu blynyddol ar y rheoleiddiwr ac yn adrodd ar hyn, yn ogystal â chynnal sesiynau untro mewn ymateb i faterion amserol penodol.

Yn fwyaf diweddar, ddechrau mis Hydref, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth fer gyda CNC ar berfformiad amgylcheddol cwmnïau dŵr ac erlyniadau posibl, y materion a godwyd ar raglen Y Byd ar Bedwar a'r gwaith 'achos dros newid'.

Mae'r cynigion 'achos dros newid' diweddar wedi bod yn destun dwy ddadl ddiweddar yn y Cyfarfod Llawn: un mewn ymateb i adroddiad craffu blynyddol CNC y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, a'r ail mewn ymateb i ddeiseb yn galw am atal cau canolfannau ymwelwyr CNC.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.